Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Comisiwn y Senedd:
## Adroddiad Blynyddol

Mehefin 2024




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Comisiwn y Senedd:
## Adroddiad Blynyddol

Mehefin 2024



# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ... 6**

Rôl y Pwyllgor a'i aelodau ... 6

Crynodeb o weithgareddau ac ystyriaethau ... 9

**2. Casgliadau a sylwadau ... 14**

Rheolaeth ariannol ... 14

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac archwiliad allanol ... 15

Archwilio mewnol ... 16

Rheoli risg ... 18

Fframwaith Sicrwydd ... 20

Fframweithiau cynllunio a rheoli portffolio ... 21

Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu ... 23

Ailstrwythuro'r gwasanaeth Llywodraethu a Sicrwydd ... 23

**3. Edrych tua'r dyfodol ... 24**

**4. Casgliadau ... 25**

**Atodiad 1: Cylch Gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd ... 26**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd (y Pwyllgor) yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwn ar ei waith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

**2.** Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar waith y Pwyllgor mewn perthynas â fframweithiau'r Comisiwn o ran rheoli risg, rheolaeth fewnol, llywodraethu a sicrwydd corfforaethol, gan gynnwys archwilio. Mae'n tynnu sylw at y canlynol: cylch gwaith y Pwyllgor; y gwaith a gyflawnwyd a'r canfyddiadau a'r arsylwadau cysylltiedig, yr hyn y mae'r Pwyllgor yn bwriadu canolbwyntio arno yn 2024-25, a'i gasgliadau cyffredinol.

**3.** Bu'n flwyddyn arall o gyflawniad a pherfformiad sylweddol, gyda darnau mawr o waith yn cael eu datblygu a'u cyflawni, fel yr amlinellwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn. Roedd y gwaith yn cynnwys, ymhlith pethau eraill:

- datblygu dwy raglen newid trawsnewidiol fawr - Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio - i baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd ac ar ôl hynny;
- cefnogi'r broses graffu ddeddfwriaethol ar y Biliau sy'n ymwneud â chynigion Diwygio'r Senedd;
- ymgorffori'r fframwaith cynllunio corfforaethol a gwasanaeth wedi'i ddiweddaru sy'n cynnwys Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig a Chynllun Gweithlu;
- bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflwyno'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu; a
- diwedd ail Senedd Ieuenctid Cymru.

## Rôl y Pwyllgor a'i aelodau

**4.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifo mewn perthynas â'u cyfrifoldebau o ran rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol. Rôl gynghori sydd gan y Pwyllgor, ac nid oes ganddo bwerau gweithredol. Mae'n rhoi cyngor ar ba mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw sicrwydd, gan gynnwys o archwiliadau mewnol ac allanol. Mae hyn yn cynnwys adolygu polisïau cyfrifyddu ac archwilio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu. Mae aelodau'r Pwyllgor hefyd yn cynnig

mewnwelediad gwerthfawr o'u gwybodaeth a'u profiad o ran edrych tua'r gorwel ar gyfer risgiau a phroblemau posibl. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor (**atodiad 1**) a'r **flaenraglen waith** wedi'u llunio'n unol â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi.

**5.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn asesu annibyniaeth archwilwyr allanol, ac mae'n cael sicrwydd ar hyn gan Archwilio Cymru drwy'r Strategaeth Archwilio Blynyddol. Mae cynrychiolwyr Archwilio Cymru hefyd yn mynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor a sesiwn breifat flynyddol gyda'r Pwyllgor. At hynny, mae Archwilio Cymru a Phrif Swyddog Cyllid y Comisiwn yn cael ôl-drafodaeth â'r Pwyllgor ar ôl y sesiwn flynyddol ar gyfer gwersi a ddysgwyd. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithio'n agos gydag archwilwyr mewnol gan eu bod yn chwarae rhan strategol allweddol wrth roi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd rheolaethau mewnol y Comisiwn.

**6.** Mae **aelodau presennol** y Pwyllgor (Comisiynydd a thri Chynghorydd Annibynnol, sy'n cynnwys y Cadeirydd) wedi'u hamlinellu isod ac wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

- Robert Evans, Cynghorydd Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor
- Hefin David AS, Comisiynydd
- Menai Owen-Jones, Cynghorydd Annibynnol
- Dr Mark Egan, Cynghorydd Annibynnol

**7.** Mae Dr Aled Eirug, Cynghorydd Annibynnol a chyn-aelod o'r Pwyllgor, a'r Athro Uzo Iwobi, Cynghorydd Annibynnol yn wahoddedigion sefydlog ym mhob cyfarfod.

**8.** Ym mis Ebrill 2024, daeth Hefin David yn Gomisiynydd sydd â chyfrifoldeb am gyllidebau a llywodraethu yn lle Ken Skates, a daeth hefyd yn aelod o'r Pwyllgor. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i Ken Skates am ei gyfraniadau gwerthfawr ac ystyriol yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

**9.** Roedd yr uwch-swyddogion canlynol hefyd yn bresennol yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:

- Manon Antoniazzi – Prif Weithredwr a Chlerc / Swyddog Cyfrifo;
- Siwan Davies – Dirprwy Brif Weithredwr a Chlerc a Chyfarwyddwr Busnes y Senedd;
- Ed Williams – Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd;

- Arwyn Jones - Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu;
- Kate Innes – Prif Swyddog Cyllid (o fis Gorffennaf 2023);
- Simon Hart – Prif Swyddog Cyllid Interim (cyfarfod diwethaf Mehefin 2023);
- Gareth Watts – Pennaeth Archwilio Mewnol / Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd (cyfarfod diwethaf Gorffennaf 2023);
- Lee Glover, Validera – Pennaeth Archwilio Mewnol Interim (o fis Awst 2023), Pennaeth Archwilio Mewnol (o fis Mawrth 2024);
- Leanne Baker – Prif Swyddog Pobl;
- Matthew Richards – Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol;
- Ann-Marie Harkin – Cyfarwyddwr Gweithredol, Archwilio Cymru (tan fis Mehefin 2023);
- Anthony Veale, Cyfarwyddwr Gweithredol Archwilio, Archwilio Cymru (o fis Tachwedd 2023);
- Clare James – Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru;
- Kathryn Hughes – Clerc y Pwyllgor / Rheolwr Risg a Llywodraethu; a
- Buddug Saer – Dirprwy Glerc Pwyllgor.

Daeth swyddogion eraill y Comisiwn i gyfarfodydd yn ôl yr angen hefyd.

**10.** Ers mis Chwefror 2024, cynhaliwyd cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor mewn fformat gwahanol, gyda'r agenda yn cael ei rhannu'n ddwy ran, fel yr amlinellir isod. Cyflwynir cofnodion ar gyfer dwy ran y cyfarfodydd:

- Mae Rhan 1 yn trafod sicrwydd rheolaidd ac eitemau busnes y Pwyllgor yn unol â Llawlyfr y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Trysorlys EF. Yn bresennol yn y rhan hon roedd aelodau'r Pwyllgor, y Prif Weithredwr a Chlerc, Cyfarwyddwyr (ar gyfer eitemau perthnasol e.e. risg gorfforaethol, ymadawiadau, seiberddiogelwch), swyddogion perthnasol eraill, Pennaeth Archwilio Mewnol, Archwilio Cymru, a'r tîm clercio;

- Mae Rhan 2 yn cynnwys trafodaeth strategol, lle mae aelodau'r Pwyllgor, pob aelod o'r Bwrdd Gweithredol a'r tîm clercio yn bresennol.

**11.** Mae'r Pwyllgor yn cyhoeddi cofnodion ei gyfarfodydd ar **wefan** y Comisiwn. Mae'r Cadeirydd hefyd yn mynd i gyfarfod y Comisiwn i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor cyn diwedd tymor yr haf.

## Crynodeb o weithgareddau ac ystyriaethau

**12.** Mae’r Pwyllgor wedi parhau i weithio mewn fformat hybrid. Mae'r dechnoleg, sy'n caniatáu cyfieithu ar y pryd yn unol â pholisi'r Comisiwn, wedi gweithio'n dda i gefnogi hyn ac mae'n caniatáu i ddewisiadau’r aelodau a'r swyddogion o ran presenoldeb gael eu hystyried.

**13.** Mae blaenraglen waith y Pwyllgor wedi parhau i adlewyrchu'r adrannau cyfrifoldebau a gofynion gwybodaeth a amlinellir yn ei Gylch Gorchwyl (**atodiad 1**). Lle gwnaed penderfyniadau gan y Pwyllgor na fyddai eitemau'n cael sylw yn y cyfarfodydd ffurfiol, dosbarthwyd papurau y tu allan i'r pwyllgor mewn modd amserol a chyfrannodd yr aelodau drwy gyfathrebu'n uniongyrchol â swyddogion perthnasol. Yn ôl yr angen dilynwyd hyn gyda'r cyfle i drafod unrhyw bwyntiau a gododd yn y cyfarfodydd ffurfiol.

**14.** Fel y nodwyd yn adran *Cyflwyniad* yr adroddiad hwn, mae’r Pwyllgor yn cydnabod cyflawniadau’r Comisiwn yn ystod y cyfnod adrodd. Mae wedi cael sesiynau briffio a diweddariadau rheolaidd gan uwch-swyddogion mewn cyfarfodydd ffurfiol a thu allan i’r pwyllgor ar feysydd gwaith allweddol ac wedi darparu her adeiladol, yn enwedig ar y risgiau cysylltiedig. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys diweddariadau ar y canlynol:

- cynnydd o ran datblygu a chyflawni rhaglenni Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio a phrosiectau mawr eraill;
- datblygu’r fframwaith cynllunio strategol;
- datblygu strategaeth y gyllideb a chyllidebau atodol;
- achosion o dorri rheolau data;
- seiberddiogelwch – gan gynnwys gwahoddiad i’r gynhadledd ddeuddydd ar seiberddiogelwch ym mis Tachwedd 2023;
- cyflawni'r Strategaeth Carbon Niwtral; a
- chyflawni’r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

**15.** Manylion am rôl y Pwyllgor o ran adolygu a chynghori ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn ac archwiliad allanol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu; archwiliad mewnol; rheoli risg; a gellir dod o hyd i'r fframwaith sicrwydd yn yr adran *Canfyddiadau a sylwadau* o'r adroddiad hwn.

Mae'n werth tynnu sylw at y canlynol yn y crynodeb hwn:

- archwiliad glân o gyfrifon y Comisiwn 2022-23 gan yr archwilwyr allanol, heb nodi unrhyw faterion o bwys;
- y ffocws parhaus ar weithredu argymhellion archwilio mewnol;
- y gwaith parhaus o reoli a monitro risgiau corfforaethol y Comisiwn gan uwch-reolwyr;
- y safonau uchel parhaus o wasanaeth a pherfformiad ar gyfer cyflawni busnes y Senedd, fel y dangoswyd yn ei Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol, ochr yn ochr â datblygu mecanweithiau ar gyfer rheoli'r gwaith o gyflawni newidiadau trawsnewidiol mawr.

**16.** Roedd adran *Edrych Tua'r Dyfodol* o Adroddiad Blynyddol 2022-23 y Pwyllgor yn tynnu sylw at sawl maes y byddai'r Pwyllgor yn parhau i gymryd diddordeb gweithredol ynddynt. Mae manylion am ystyriaeth y Pwyllgor o'r meysydd penodol hyn, y mae rhai ohonynt wedi'u cynnwys mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, wedi'u hamlinellu isod:

- effeithiolrwydd llywodraethu rhaglenni a phrosiectau, gan gynnwys y dulliau adrodd a gwneud penderfyniadau a rheoli risgiau sy'n ymwneud â'r newidiadau trawsnewidiol mawr - Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio - a phrosiectau mawr eraill, fel adnewyddu system Adnoddau Dynol / Cyflogres 'Pobl a Thaliadau' y Comisiwn

  Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r holl Gynghorwyr Annibynnol ym mis Gorffennaf 2023 i gyflwyno manylion pensaernïaeth rheoli rhaglenni a phrosiectau'r Comisiwn. Mae'r Pwyllgor wedi cael diweddariadau rheolaidd a manwl ar gynnydd y rhaglenni a'r prosiectau mawr yn ystod y flwyddyn. Mae adolygiad archwilio mewnol ar lywodraethu rhaglenni a phrosiectau wedi'i gwblhau, a bydd y Pwyllgor yn ystyried ei adroddiad pan fydd wedi'i orffen.

- effeithiolrwydd y fframwaith cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaeth wedi'i ddiweddaru a gweithrediad y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig

Cafodd y Cynllun Corfforaethol dwy flynedd ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol ac mae cylch cynllunio gwasanaeth 2024-25 wedi'i gwblhau.

Mae’r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig wedi cael ei adnewyddu gyda'r Uned Cynllunio Strategol yn cysylltu â’r timau Cyllid ac Adnoddau Dynol wrth lunio’r fframwaith hwnnw. Croesawodd y Pwyllgor y datblygiadau hyn ac roedd yn fodlon â’r wybodaeth ychwanegol a gafodd, ar ôl gofyn, gan swyddogion ynghylch integreiddio'r dogfennau cynllunio hyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn yr adran *Canfyddiadau a sylwadau* o'r adroddiad hwn o dan *Fframweithiau cynllunio a rheoli portffolio*.

- rheoli risgiau sy’n ymwneud â’r fframwaith rheoleiddio fel y mae’n gymwys i Aelodau o’r Senedd

  Chynhaliodd y Pwyllgor archwiliad trylwyr i’r risg hon yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2023, lle rhoddodd uwch swyddogion sicrwydd pellach ynghylch ei rheolaeth. Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad hefyd ar reoli'r risg hon ym mhob un o'i gyfarfodydd ffurfiol fel rhan o’r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

  Ym mis Hydref 2023, adolygodd y Pwyllgor adroddiad archwilio mewnol ar y Fframwaith Rheoleiddio a oedd yn canolbwyntio ar reoli'r risgiau a gwerthuso effeithiolrwydd rheolaethau. Roedd y farn sicrwydd cyffredinol ar gyfer yr adroddiad yn sylweddol, gyda dau argymhelliad yn cael sylw drwy adolygu'r risgiau yn rheolaidd. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod cymhlethdod y fframwaith rheoleiddio ac yn croesawu'r ffocws ar gamau i fynd i'r afael â'r risgiau.

- cydymffurfio â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Comisiwn

  Amlygodd Datganiad Llywodraethu 2022-23 yr angen i “[g]ymryd camau i fynd i’r afael ag unrhyw faterion sy’n dod i’r amlwg ynghylch cydymffurfio â’n Cynllun Ieithoedd Swyddogol”. Nododd y Pwyllgor y cynnydd yn erbyn hyn yn Natganiad Llywodraethu 2023-24. I grynhoi, cyhoeddwyd canllawiau ar gyfer Cydlynwyr y Cynllun Ieithoedd Swyddogol i'w helpu i gydnabod materion sy'n dod i'r amlwg yn gynnar fel y gellid eu datrys yn gyflym ac osgoi achosion o ddiffyg cydymffurfio a chwynion. Mae’r gweithdrefnau ar waith yn cynnwys gofyniad i gofnodi

a rhannu'r camau a gymerwyd a'r gwersi a ddysgwyd i osgoi achosion dro ar ôl tro.

**17.** Yn ogystal â busnes ffurfiol y Pwyllgor, bu ei aelodau hefyd yn cefnogi'r Comisiwn ar weithgareddau eraill yn ystod y flwyddyn, naill ai yn rhinwedd eu swydd fel aelod o'r Pwyllgor neu yn eu swyddogaeth ehangach fel Cynghorwyr Annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys:

- adolygiad gweithredol o gynnydd yn erbyn cyflawni'r Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu (ceir rhagor o fanylion yn yr adran *Canfyddiadau a sylwadau* o'r adroddiad hwn);
- mynychu cyfarfod Bwrdd Gweithredol ym mis Mawrth 2024 i graffu ar y datganiadau sicrwydd a ddarparwyd gan bob Cyfarwyddwr a'u herio er mwyn llywio Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifo (ceir rhagor o fanylion yn yr adran *Canfyddiadau a sylwadau* o'r adroddiad hwn, o dan *Fframwaith Sicrwydd);*
- beirniadu Gwobrau Cynllun Cydnabod Staff 2023; ac
- aelodaeth o'r panel recriwtio ar gyfer y Prif Swyddog Pobl.

**18.** Mae swyddogion y Comisiwn hefyd yn parhau i rannu gwybodaeth â'r Pwyllgor mewn amser real. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- lincs i drafodion ffurfiol y Senedd, megis sesiynau craffu Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Phwyllgor Cyllid y Senedd, ynghyd ag adroddiadau Pwyllgor perthnasol ac ymatebion y Comisiwn;
- papurau ac adroddiadau'r Comisiwn, megis y rhai sy'n ymwneud â rhaglenni Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio;
- negeseuon i staff, gwahoddiadau i gyfarfodydd yr holl staff, a diweddariadau wythnosol ar weithgarwch y Comisiwn; a
- chylchlythyrau, adroddiadau a diweddariadau perthnasol a gyhoeddwyd gan gyrff, megis y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sefydliadau archwilio mewnol, a'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

**19.** Ym mhob un o'i gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi cael adroddiadau diweddaraf ar weithgarwch llywodraethu, sicrwydd ac archwilio.

Roedd hyn yn cynnwys sicrwydd a diweddariadau pwysig ar ystod o faterion, megis:

- gweithgarwch sicrwydd anffurfiol, megis adolygiadau cynghorol y tu allan i'r rhaglen archwilio mewnol ffurfiol; a
- diweddariadau ar feysydd gwaith a gwmpesir gan y tîm Llywodraethu a Sicrwydd, megis casglu sicrwydd i lywio'r Datganiad Llywodraethu; llunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn; parhad busnes; a'r gwaith o ddatblygu a gweithredu fframwaith corfforaethol a chynllunio gwasanaeth newydd.

# 2. Casgliadau a sylwadau

**20.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu canfyddiadau a sylwadau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ynghylch ei raglen waith graidd. Mae manylion am sicrwydd y Pwyllgor mewn perthynas â meysydd eraill o weithgarwch y Comisiwn wedi'u cynnwys mewn rhannau eraill o'r adroddiad.

## Rheolaeth ariannol

**21.** Croesawodd y Comisiwn Brif Swyddog Cyllid newydd ym mis Mehefin 2023. Cafwyd cyfnod pontio gyda'r Prif Swyddog Cyllid interim i sicrhau trosglwyddiad llyfn, a oedd yn arbennig o bwysig ar adeg pan oedd y gwaith o archwilio'r cyfrifon yn cael ei gwblhau. Roedd swydd y Pennaeth Cyllid hefyd wedi'i llenwi'n barhaol ym mis Mehefin ar ôl cyfnod o gyflenwi dros dro.

**22.** Gellir dod o hyd i fanylion am reolaeth ariannol a pherfformiad yn natganiad llywodraethu'r Swyddog Cyfrifo, a gyhoeddwyd fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2023-24.

**23.** Mae'r Pwyllgor wedi cael diweddariadau cyllid ym mhob un o'i gyfarfodydd a gwybodaeth am y gyllideb pan fyddant ar gael. Mae hyn wedi cynnwys manylion gwariant y flwyddyn hyd yma a rhagolygon alldro, strategaethau cyllideb, a lincs i sesiynau craffu ac adroddiadau craffu a gynhyrchwyd gan bwyllgorau'r Senedd ac ymatebion y Comisiwn. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael ei hysbysu am fanylion ynghylch rheoli'r gyllideb i gynnwys y taliadau costau byw yn ystod y flwyddyn. Wrth symud ymlaen, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnwys eitem ar yr agenda yn ei gyfarfod yn y Gwanwyn i ystyried strategaeth dreigl tair blynedd y gyllideb. Mae hefyd wedi cael gwybodaeth am effaith newidiadau i reoliadau cyfrifyddu.

**24.** Fel y nodwyd ym mharagraff 16 o'r adroddiad hwn, parhaodd y Pwyllgor i ymddiddori mewn datblygu cynllunio ariannol hirdymor fel rhan o fframweithiau cynllunio a rheoli portffolio cyffredinol y Comisiwn, er mwyn sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiectau amlflwyddyn yn cael eu nodi a'u rheoli. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn yr adran *Fframweithiau cynllunio a rheoli portffolio* o'r adroddiad hwn.

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ac archwiliad allanol

**25.** Roedd y Pwyllgor yn cefnogi’r gwaith o lunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022-23, a oedd yn cynnwys adolygu Datganiad Llywodraethu y Swyddog Cyfrifo.

**26.** O ran naratif yr Adroddiad Blynyddol, roedd y Pwyllgor o'r farn bod hwn yn ddisgrifiad manwl a thrylwyr o'r cyflawniad yn erbyn nodau strategol y Comisiwn. Trafododd y Pwyllgor lefel y manylder yn yr adroddiad, a’i ddarllenwyr, ac roedd yn cydnabod yr adborth cadarnhaol a gafwyd gan Bwyllgor Cyllid a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd ar eu gwaith craffu ar adroddiadau blaenorol.

**27.** Croesawodd y Pwyllgor gyflwyniad rhyngweithiol o’r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, gyda'r fersiwn ar-lein yn cynnwys lincs clir i'r adroddiadau blynyddol ar gynaliadwyedd, amrywiaeth a chynhwysiant, ac ieithoedd swyddogol. Roedd hefyd yn cynnwys lincs i gynnwys fideo a digidol, yn ogystal ag erthyglau a gwybodaeth bellach a grëwyd eisoes yn ystod y flwyddyn. Anogodd y Pwyllgor swyddogion i adeiladu ar hyn ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod yr adroddiad mor hygyrch â phosibl. Roedd yr adroddiad hefyd ar gael yn y fformat printiadwy arferol at ddibenion archwilio a gosod.

~~**28.**~~ Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2023, nododd y Pwyllgor yr Adroddiad ar y Datganiadau Ariannol (ISA260) a’r Llythyr Rheoli ar gyfer 2022-23 ac roedd yn falch o nodi’r archwiliad glân heb unrhyw faterion o bwys wedi’u nodi. Roedd tri argymhelliad yn codi o’r archwiliad ac aethpwyd i'r afael â nhw yn ystod y flwyddyn.

~~**29.**~~ Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol ym mis Mehefin 2023.

**30.** Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r berthynas waith gref barhaus rhwng yr archwilwyr allanol a'r archwilwyr mewnol drwy gyfrwng y ‘protocol cydweithio’, sy’n cael ei adolygu a’i gyflwyno i’r Pwyllgor bob blwyddyn.

**31.** Bydd y Pwyllgor yn parhau i gydweithio'n agos â'r archwilwyr allanol er mwyn sicrhau bod y prif systemau a rheolaethau ariannol a'r gweithdrefnau sy'n ategu'r broses o baratoi'r cyfrifon yn parhau i fod yn gadarn.

**32.** Croesawodd y Pwyllgor olwg cynnar ar Ddatganiad Llywodraethu drafft ar gyfer 2022-23 ym mis Ebrill 2023 ac roedd o’r farn bod hwn yn ddatganiad cadarn ac yn adlewyrchiad cywir a gonest o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu’r

Comisiwn dros y flwyddyn. Roedd y Pwyllgor wedi cael diweddariadau ar feysydd a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu'r flwyddyn flaenorol yn ystod y flwyddyn drwy adrodd ar risgiau corfforaethol, rheolaeth ariannol ac adroddiadau archwilio mewnol y Comisiwn.

**33.** Croesawodd y Pwyllgor hefyd olwg gynnar ar y naratif drafft ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, gan gynnwys Datganiad Llywodraethu drafft, ac amlinelliad o'r datganiadau ariannol yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2024.

## Archwilio mewnol

**34.** Yn sgil ymadawiad y Pennaeth Archwilio Mewnol mewnol ym mis Gorffennaf 2023, cafwyd adolygiad o wasanaeth archwilio mewnol y Comisiwn. Cefnogwyd y rôl gan un archwilydd mewnol cymwys arall yn rhan-amser a adawodd y Comisiwn ym mis Mawrth 2024.

**35.** Rai blynyddoedd yn ôl, mabwysiadodd y Comisiwn drefniant partner cyd-ffynhonnell gyda rhai archwiliadau yn cael eu cynnal gan ddarparwr trydydd parti. Mae'r trefniant hwn wedi gweithio'n dda wrth gydbwyso gwybodaeth a dealltwriaeth gorfforaethol y Pennaeth Archwilio Mewnol o'r sefydliad, a'r berthynas â rheolwyr, â'r arbenigedd mewn meysydd megis seiberddiogelwch a pharhad busnes gan y corff trydydd parti. Roedd hyn hefyd yn helpu i sicrhau annibyniaeth y gwaith archwilio mewn meysydd lle'r oedd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol gyfrifoldeb rheoli fel rheoli risg a chaffael.

**36.** Er bod opsiynau ar gyfer dyfodol y gwasanaethau archwilio mewnol yn cael eu hystyried, rhoddwyd trefniadau interim ar waith lle roedd y Cyfarwyddwr Ymgysylltu Archwilio Mewnol o'r darparwr trydydd parti yn cymryd swydd Pennaeth Archwilio Mewnol Interim. Mae'r trefniant hwn wedi dod yn barhaol ers hynny a gwnaed penderfyniad i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am archwiliad mewnol i'r Gwasanaeth Cyllid, gyda'r Prif Swyddog Cyllid yn gweithredu fel yr Uwch Berson Cyfrifol ar gyfer yr archwiliad mewnol o fewn y Comisiwn.

**37.** Mae'r Comisiwn hefyd wedi symud o gylch cynllunio archwilio blynyddol i raglen dreigl tair blynedd o archwiliadau. Mae'r Pwyllgor yn croesawu hyn ac yn fodlon ar y sicrwydd a gafwyd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol fod digon o adnoddau wedi'u dyrannu o hyd i gyflawni'r rhaglen. Mae hefyd yn croesawu'r ffocws parhaus ar gynnal cydbwysedd priodol o archwiliadau ar draws gwasanaethau a chyfarwyddiaethau ac yn nodi y caiff y cynllun hwn ei addasu i ystyried risgiau sy'n dod i'r amlwg.

**38.** Mae safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn nodi bod yn rhaid i gorff annibynnol gynnal Asesiad Ansawdd Allanol (EQA) unwaith bob pum mlynedd ar gyfer yr holl wasanaethau archwilio mewnol. Er mwyn hwyluso lefel gyson o adolygiad, mae Trysorlys EF wedi datblygu Fframwaith Asesu Ansawdd Archwilio Mewnol (IAQAF) sy'n nodi proses a datganiadau diffiniedig o arfer da y dylid gwneud yr asesiad yn eu herbyn.

**39.** Yn ystod 2023-24, gwnaeth Archwilio Mewnol hunanasesu ei hun yn erbyn gofynion IAQAF, a chynhaliodd Gwasanaethau Archwilio Mewnol SWAP yr EAQ i wirio'r honiadau a'r casgliadau a wnaed. Daeth yr EQA i'r casgliad bod y swyddogaeth yn gyffredinol yn cydymffurfio (y lefel uchaf o gydymffurfiaeth) â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac wedi gwneud nifer fach o argymhellion yr aethpwyd i'r afael â nhw.

**40.** Adolygodd y Pwyllgor adroddiadau o bedwar archwiliad mewnol ffurfiol yn ystod y flwyddyn, sef: Parhad Busnes, Treuliau Aelodau, Penodiadau Cyhoeddus a Chardiau Caffael. Cafodd hefyd adroddiadau ar: archwiliad dilynol o Seiberddiogelwch, Adolygiad Effeithiolrwydd ymgynghorol o'r Bwrdd Gweithredol ac adolygiad ymgynghorol o wersi a ddysgwyd o Covid 19. Mae archwiliadau ffurfiol ar Lywodraethu Rhaglen a Phrosiectau a Seiberddiogelwch hefyd wedi'u cwblhau, ac mae'r adroddiadau hynny gyda'r rheolwyr ar hyn o bryd ar gyfer eu hymatebion. Cafodd rhai archwiliadau arfaethedig eu gohirio tan 2024-25, yn rhannol o ganlyniad i'r newidiadau yn y strwythur archwilio mewnol ond hefyd gan nad oedd y dyddiadau arfaethedig ar gyfer archwilio bellach yn gyfleus oherwydd newidiadau mewn prosesau ac amseriad y gwaith i'w archwilio.

**41.** Mae'n bleser gan y Pwyllgor nodi'r ymgysylltiad cadarnhaol parhaus gan reolwyr â'r tîm archwilio mewnol a gweithrediad amserol ac adeiladol yr argymhellion. Mae gan y Comisiwn fecanwaith ar waith i olrhain y rhain a fe gafodd sicrwydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol bod yr holl argymhellion o flynyddoedd blaenorol naill ai wedi'u cwblhau neu ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau.

**42.** Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Adroddiad Blynyddol ar Dwyll i'r Pwyllgor a dywedodd na ddygwyd unrhyw achosion o weithgarwch twyllodrus gwirioneddol neu amheus i'w sylw yn ystod y flwyddyn. Nid oedd unrhyw ddatgeliadau chwythu'r chwiban mewnol ychwaith.

**43.** Mae Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2023-24 yn nodi y gall y Swyddog Cyfrifo gymryd sicrwydd cymedrol bod y trefniadau i sicrhau bod gwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol,

wedi'u cynllunio a'u cyflawni’n effeithiol. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr adroddiad yn asesiad cywir o waith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac o effeithiolrwydd yr argymhellion.

**44.** Cadarnhaodd yr adroddiad hwnnw hefyd gydymffurfiad â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a’r Siarter Archwilio Mewnol.

**45.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn fodlon gyda sicrwydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol bod annibyniaeth y rôl yn cael ei diogelu heb unrhyw wrthdaro buddiannau wrth gynnal yr archwiliadau. Mae’r ffaith bod y penodiad hwn wedi’i symud i fod yn allanol wedi gwella annibyniaeth y rôl.

## Rheoli risg

### Prosesau adolygu ac adrodd

**46.** Parhaodd y Pwyllgor i fonitro effeithiolrwydd prosesau rheoli risg yn ystod y flwyddyn. Mae'n parhau i fod yn fodlon bod trefniadau ar gyfer nodi, rheoli, adolygu ac adrodd ar risgiau ar draws y Comisiwn yn gadarn ac wedi'u gwreiddio. Cydnabu’r Pwyllgor hefyd ymdrechion parhaus y Rheolwr Risg a’r rhwydwaith o Hyrwyddwyr Risg i gadw ffocws ar reoli risgiau ar bob lefel.

**47.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu adolygiad y Comisiwn o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag ymarferion rheolaidd edrych tua’r gorwel ac ansawdd uchel cyson y broses adrodd ar risg.

**48.** Mae'r Pwyllgor wedi nodi bwriad y rheolwyr i adolygu trefniadau rheoli risg yn ystod 2024-25 ac mae adolygiad archwilio mewnol o reoli risg wedi'i gynnwys yn y rhaglen archwilio ar gyfer 2025-26.

**49.** Mae rhagor o fanylion am y trefniadau ar gyfer risgiau a'u rheoli ar gael yn Natganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifo.

### Proffil risg

**50.** Yn ogystal ag adolygu Cofrestr Gryno o Risgiau Corfforaethol y Comisiwn ym mhob cyfarfod, mae’r Pwyllgor hefyd yn cynnal adolygiadau trylwyr o rai risgiau unigol lle gall uwch-swyddogion roi sicrwydd pellach i'r Pwyllgor ynghylch eu rheolaeth effeithiol. Y risgiau penodol a ystyriwyd yn ystod 2023-24 oedd: y Fframwaith Rheoleiddio fel y mae'n berthnasol i Aelodau, Newid Cyfansoddiadol sy'n gysylltiedig â'r DU, ac Urddas a Pharch. Mae rhagor o fanylion am y risgiau

corfforaethol, a sut maent wedi newid yn ystod y flwyddyn, wedi'u cynnwys yn adran Proffil Risg Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn.

**51.** Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gymryd diddordeb brwd mewn cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data ac yn croesawu'r diweddariadau a ddarparwyd yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae'r Adroddiad Blynyddol gan yr Uwch-berchennog Risgiau Gwybodaeth yn atgyfnerthu ymhellach y sicrwydd bod risgiau gwybodaeth yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn amlinellu cynlluniau ar gyfer y tîm Llywodraethu Gwybodaeth i gyflawni amcanion â blaenoriaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn diweddariadau ar unrhyw achosion o dorri data neu achosion posibl yn ystod y flwyddyn. Yn ystod 2023-24, roedd pedwar achos o dorri rheolau a oedd yn bodloni'r trothwy ar gyfer rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Roedd yr ICO yn fodlon â'r modd y gwnaeth y Comisiwn ymdrin â'r achosion hyn heb fod angen cymryd unrhyw gamau pellach.

**52.** Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd gan bump o'r deg risg corfforaethol sgôr difrifoldeb 'coch'. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y graddfeydd risg uchel yn bennaf yn sgil dylanwadau allanol nad oes gan y Comisiwn fawr ddim rheolaeth drostynt, os o gwbl, anogodd swyddogion i barhau i ganolbwyntio ar leihau eu tebygolrwydd a'u heffaith cyn belled ag y bo modd. Cred y Pwyllgor, ynghyd â seiberddiogelwch, mai un o'r risgiau mwyaf sylweddol o hyd fydd yr un sy'n ymwneud ag effaith newid gwleidyddol, deddfwriaethol a chyfansoddiadol, a'r ymatebion iddynt, ochr yn ochr â chyflawni blaenoriaethau strategol uchelgeisiol y Comisiwn o fewn cyfyngiadau ariannol.

## Seiberddiogelwch

**53.** Nododd y Pwyllgor y gwaith sylweddol a wnaed i liniaru risgiau seiberddiogelwch yn barhaus. Mae'n croesawu'r adroddiadau rheolaidd a chynhwysfawr ar sicrwydd yn yr agwedd hanfodol hon ar lywodraethu a rheoli risg. Mae uwch-swyddogion TGCh yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn i gyflwyno Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch trylwyr a manwl iawn sy'n rhan bwysig o'r sicrwydd parhaus o ran rheoli risgiau seiberddiogelwch i'r Pwyllgor a rheolwyr y Comisiwn. Bydd seiberddiogelwch hefyd yn aros ar y cynllun archwilio mewnol blynyddol.

**54.** Mae swyddogion, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu a Phennaeth TGCh hefyd wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd â'r Comisiynydd perthnasol i drafod risgiau seiberddiogelwch. Mae Ken Skates, fel aelod Comisiynydd y Pwyllgor tan fis Mawrth 2024 hefyd wedi cymryd rhan weithredol

mewn trafodaethau gydag Aelodau o’r Senedd ynghylch codi ymwybyddiaeth o fygythiadau seiberddiogelwch a’r modd y cânt eu lliniaru.

**55.** Croesawodd y Pwyllgor ddigwyddiad Seiberddiogelwch ym mis Rhagfyr 2023, a gafodd ei ddatblygu, ei drefnu a'i hwyluso gan y tîm TGCh. Roedd y digwyddiad yn cynnwys nifer o sgyrsiau, gweithdai a chyflwyniadau llwyddiannus, gan gynnwys trafodaeth banel gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) a'r arweinwyr seiber o bedwar sefydliad seneddol y DU. Cafodd y digwyddiad dderbyniad da ond nid oedd cymaint o bobl yn bresennol ag a ragwelwyd ac felly ni lwydodd i gyrraedd y lefel o ymgysylltu ac effaith angenrheidiol i godi ymwybyddiaeth. Bydd digwyddiadau pellach yn cael eu cynllunio gan ystyried ffyrdd o wella lefelau presenoldeb.

**56.** Mae gwasanaeth TGCh y Comisiwn wedi cadarnhau na fu unrhyw ddigwyddiadau seiberddiogelwch a arweiniodd at dor diogelwch data yn 2023-24.

**57.** Mae’r Pwyllgor yn cydnabod bod y camau a gymerwyd i ddiogelu’r seilwaith TGCh wedi parhau i ddiogelu’r sefydliad ac wedi galluogi’r sefydliad i gadw i fyny â’r bygythiadau newidiol. Mae'n annog y Comisiwn i barhau i ganolbwyntio'n briodol ar faterion seiberddiogelwch a pharhau i bwysleisio pwysigrwydd arferion seiberddiogelwch da, a chodi ymwybyddiaeth o’r risgiau a’r camau lliniaru gyda’r Aelodau a’u staff cymorth.

### Urddas a Pharch

**58.** Fel y nodwyd ym mharagraff 50, cynhaliodd y Pwyllgor adolygiad manwl o'r risgiau sy'n ymwneud ag urddas a pharch. Cyflwynwyd papur, gan gynnwys yr adroddiad risg llawn, i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd. Nododd y Pwyllgor y cynnydd o ran gweithredu argymhellion y Comisiwn a'r cynlluniau ar gyfer ymchwiliad gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Rhannwyd yr adroddiad ar ganfyddiadau allweddol o Arolwg Urddas a Pharch 2023 â’r Pwyllgor hefyd. Ceir manylion pellach am yr adolygiad o'r fframwaith Urddas a Pharch yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn.

## Fframwaith Sicrwydd

**59.** Mae Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn yn cynnwys proses gadarn ar gyfer casglu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ar bob lefel ar draws y Comisiwn. Mae hyn yn seiliedig ar fodel ‘tair llinell amddiffyn’ Trysorlys EM

ac mae'n dangos cryfder cyffredinol ffynonellau sicrwydd y Comisiwn ac yn amlygu gwendidau posibl.

**60.** Mae'r broses yn cynnwys mapio'r ffynonellau sicrwydd gweithredol, corfforaethol ac annibynnol yn erbyn: deddfwriaeth/safonau/arfer gorau, polisïau a gweithdrefnau; prosesau mewnol; risgiau; prosiectau/rhaglenni; contractau a systemau ar gyfer pob maes gwasanaeth. Defnyddir y mapiau sicrwydd i lywio'r gwaith o ddrafftio datganiadau sicrwydd lefel gwasanaeth blynyddol, a ddefnyddir yn eu tro i lywio datganiadau sicrwydd gan bob Cyfarwyddwr. Defnyddir y wybodaeth wedyn i lywio Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifo.

**61.** Eleni, yn unol ag arfer gorau sy'n dod i'r amlwg yn y sector cyhoeddus ar fapio sicrwydd, cyflwynwyd cam pellach lle'r oedd y Cyfarwyddwr yn gwneud gwaith mapio sicrwydd strwythuredig wedi'i hwyluso ar y lefel ail linell/arolygiaeth gorfforaethol i lywio eu datganiadau. Bydd hyn yn cael ei werthuso i sicrhau ei fod yn addas i'r diben cyn proses casglu sicrwydd y flwyddyn nesaf.

**62.** Darparwyd haen arall o sicrwydd drwy bresenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor hwn ac un aelod arall yn un o gyfarfodydd y Bwrdd i graffu a herio'r datganiadau sicrwydd a ddarparwyd gan y Cyfarwyddwyr. Yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2024, anogwyd swyddogion i ystyried dull mwy trawsbynciol o ymdrin â datganiadau'r Cyfarwyddwr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried drafftiau cynnar o'r Datganiad Llywodraethu ac yn cynghori ar ei gynnwys.

**63.** Mae'r Pwyllgor o'r farn bod y broses ar gyfer casglu sicrwydd yn gadarn ac yn gymesur.

## Fframweithiau cynllunio a rheoli portffolio

**64.** Mae'r Pwyllgor yn rhoi pwys arbennig ar y ffaith bod y Comisiwn yn cyflwyno fframweithiau cynllunio a rheoli portffolio wedi'u diweddaru.

**65.** Daeth y Fframwaith Rheoli Portffolio yn weithredol yn 2023-24, yn cynnwys strategaeth bortffolio (a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol) gyda'r Grŵp Rheoli Portffolio (dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Cyllid a'i gefnogi gan Bennaeth yr Uned Cynllunio Strategol) yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o'i gyflawni, gan gynnwys gwneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol ar ba brosiectau y dylid eu cynnwys yn y portffolio a'u blaenoriaeth gymharol i'w gilydd.

**66.** Ochr yn ochr â hyn, datblygwyd cylch cynllunio corfforaethol blynyddol wedi'i adnewyddu ac mae wrthi'n cael ei gyflwyno.

**67.** Fel y nodwyd yn adran *Crynodeb o weithgareddau ac ystyriaethau* yr adroddiad hwn (paragraff 16), cafodd Cynllun Cyflawni Corfforaethol ei ddatblygu a'i gyhoeddi ar dudalennau mewnrwyd y Comisiwn. Mae'r Cynllun yn galluogi'r Bwrdd Gweithredol i fonitro cynnydd yn erbyn camau gweithredu allweddol a'r hyn y gellir ei gyflawni, gan ddod â hwy at ei gilydd mewn un lle i wella arolygiaeth a phenderfyniadau'r Bwrdd. Yn ystod 2023-24, cafodd y Cynllun ei adnewyddu a'i fframio o amgylch set o flaenoriaethau blynyddol arwahanol a chlir y Comisiwn. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael adroddiadau monitro chwarterol ar gynnydd ac adroddiad alldro terfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol berthnasol. Mae rhagor o fanylion am hyn, a'r gwaith cynllunio lefel gwasanaeth sy'n ei gefnogi, ar gael yn yr adran Cynnydd a Pherfformiad yn Natganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifo.

**68.** Ochr yn ochr â hyn, yn 2022 cytunodd y Comisiwn i ddatblygu Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig. Bydd y Fframwaith hwn, a fydd yn dod i rym yn llawn yn 2024-25 yn dilyn cyfnod pontio a gwaith paratoi sylweddol yn ystod 2023-24, yn cynnwys:

- cynllun ariannol tymor canolig, yn manylu, cyn belled ag y bo modd, y pwysau cost disgwyliedig a'r gofynion cyllidebol i'r Comisiwn ar gyfer y cyfnod 2024-25 i 2026-27, lefel yr aliniad rhwng y gofynion ariannol hynny a'r blaenoriaethau corfforaethol, y meysydd ar gyfer arbedion ac effeithlonrwydd posibl dros amser a'r adnoddau a fydd yn sicrhau bod gofynion cyllidebol, cynigion arbedion ac effeithlonrwydd a phrosesau cynllunio ariannol yn gadarn ac yn effeithiol; a

- Chynllun Gweithlu drafft ar gyfer y cyfnod tair blynedd, sy'n nodi sut y bydd y Comisiwn yn rheoli'r sefydliad staffio cyffredinol o fewn y paramedrau cynllunio ariannol tymor canolig, sut y bydd cynllunio'r gweithlu yn cyd-fynd â chyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol newydd wrth symud ymlaen a sut y bydd y nodau strategol ar gyfer datblygu'r gweithlu yn cael ei gyflawni.

**69.** Ym mis Medi 2023, cafodd y pedair elfen hyn eu cyfuno yn Fframwaith Adnoddau cwbl integredig, sy'n cwmpasu maint sefydliad staffio'r Comisiwn a'i gyllidebau dros gyfnod o dair blynedd gan ddechrau yn 2024-25, gydag un set o nodau, targedau, mesurau perfformiad a phrosesau.

**70.** Mae'r Pwyllgor wedi croesawu'r datblygiadau hyn a bydd yn parhau i gymryd diddordeb gweithredol yn y cynlluniau wrth iddynt ddatblygu.

## Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu

**71.** Fel y nodwyd ym mharagraff 17, cefnogodd aelodau'r Pwyllgor y Comisiwn ar adolygiad anffurfiol o gynnydd yn erbyn ei Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu hanner ffordd drwy dymor presennol y Senedd. Trafododd y Pwyllgor adroddiad ar yr adolygiad hwn yn ei gyfarfod ar 19 Chwefror. Mae adolygiad archwilio mewnol ffurfiol ar gyflawni'r strategaeth wedi'i gynnwys yn y rhaglen archwilio ar gyfer 2024-25.

## Ailstrwythuro'r gwasanaeth Llywodraethu a Sicrwydd

**72.** Arweiniodd ymadawiad y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd ym mis Gorffennaf 2023 at adolygiad o'r swyddogaethau'r a gwmpesir gan y tîm Llywodraethu a Sicrwydd, ac mae'r Pwyllgor wedi dilyn hyn â diddordeb. Mae'r Pwyllgor wedi nodi, fel rhan o hyn, bod y Comisiwn wedi symud i fodel archwilio mewnol o dan gontract allanol yn llawn a bod yr ailstrwythuro wedi gadael y cymorth ysgrifenyddol a ddarparwyd iddo heb ei newid.

# 3. Edrych tua'r dyfodol

**73.** Er bod y Pwyllgor yn cydnabod cryfder trefniadau risg, rheolaeth, llywodraethu a sicrwydd y Comisiwn, rhaid i'r rhain barhau i ddatblygu er mwyn iddynt fod yn effeithiol o hyd. Yn ogystal â'i weithgarwch rheolaidd, bydd y Pwyllgor yn cymryd diddordeb gweithredol yn y meysydd a ganlyn yn ystod 2024-25 – mae'r rhain i raddau helaeth yn adlewyrchu'r meysydd a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifo i ganolbwyntio arnynt:

- cynnydd o ran rhaglenni Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio wrth baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd ac ar ôl hynny, gan ganolbwyntio'n benodol ar reoli rhaglenni a newid, a rheoli risg;
- esblygu ac ymgorffori'r fframwaith cynllunio strategol; a
- rheoli risgiau llywodraethu gwybodaeth.

**74.** Mae angen i'r Pwyllgor hefyd edrych ymlaen a rhagweld problemau, heriau a risgiau a all godi yn y dyfodol, yn ychwanegol at y rhai a nodwyd yn ei flaenraglen waith. Er mwyn helpu i lywio hyn, bydd swyddogion a'r tîm clercio yn parhau i ddosbarthu diweddariadau perthnasol a bydd y Cadeirydd yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd gyda'r Pennaeth Llywodraethu, y Prif Swyddog Cyllid a swyddogion eraill yn ôl yr angen. Mae'r Pwyllgor yn awyddus o hyd i fynd ar drywydd cyfleoedd i weithio gyda Bwrdd Gweithredol y Comisiwn a swyddogion eraill mewn meysydd lle gall ychwanegu gwerth.

# 4. Casgliadau

**75.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifo a'r Comisiwn ynghylch effeithiolrwydd cyffredinol yr amgylchedd risg, rheolaeth a llywodraethu. Yn gyffredinol, mae lefelau sicrwydd yn y Comisiwn yn parhau i fod yn uchel. Mae'r ffynonellau sicrwydd yn gadarn ac yn ddibynadwy, fel y dangosir gan y Fframwaith Sicrwydd, archwiliad allanol o'r cyfrifon, a'r gwaith parhaus a'r Farn a'r Adroddiad Blynyddol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol.

**76.** Sylwodd y Pwyllgor sut y parhaodd y Comisiwn i ddangos safonau llywodraethu uchel yn ystod y flwyddyn.

**77.** Mae'r Pwyllgor yn diolch i'r Prif Weithredwr a'r Clerc a'i staff am eu hagwedd adeiladol a chydweithredol at waith y Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf. Drwy gydol y cyfnod mae'r Pwyllgor wedi parhau i fwynhau perthnasoedd gwaith da iawn gyda staff y Comisiwn ac wedi canfod eu bod yn agored ac yn barod i herio. Mae'r cymorth a ddarperir gan y tîm clercio yn parhau i gael ei werthfawrogi'n fawr gan aelodau'r Pwyllgor.

# Atodiad 1: Cylch Gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd

**CYLCH GORCHWYL**

Mae Comisiwn y Senedd yn sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd i'w gynorthwyo â'i gyfrifoldebau dros faterion rheoli risg a llywodraethu. Ei rôl yw adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd a geir ac a yw'r sicrwydd hwn yn diwallu anghenion Comisiwn y Senedd a'r Swyddog Cyfrifyddu.

**AELODAETH**

**1.** Dyma Aelodau Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd:

- Hefin David, AS, Comisiynydd;
- Tri chynghorydd annibynnol: Robert Evans (Cadeirydd); Dr Mark Egan; a Menai Owen-Jones.

**ADRODD**

**2.** Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn drwy'r Comisiynydd sy'n aelod o'r Pwyllgor ar ôl pob cyfarfod. Caiff cofnodion pob cyfarfod eu cynnwys fel papur i'w nodi mewn cyfarfod y Comisiwn yn y dyfodol a gyhoeddir ar wefan y Senedd.

**3.** Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn bresennol yng nghyfarfod y Comisiwn fel arfer ym mis Gorffennaf ac yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu, a fydd yn crynhoi casgliadau'r Pwyllgor ar y gwaith a wnaeth yn ystod y flwyddyn.

**CYFRIFOLDEBAU**

**4.** Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch:

- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu;
- y Datganiad Llywodraethu;

- polisïau cyfrifyddu, cyfrifon, ac adroddiad blynyddol y Comisiwn, gan gynnwys y broses o adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, nifer y camgymeriadau a nodwyd, a llythyr yn cynnwys sylwadau'r rheolwyr i'r Archwilydd Cyffredinol;
- y gwaith archwilio mewnol ac allanol sydd wedi'i drefnu, a'r canlyniadau;
- a yw ymateb y rheolwyr i'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio yn ddigonol, gan gynnwys y llythyr rheoli ar gyfer gwaith archwilio allanol gan Archwilio Cymru;
- sicrwydd i'r Comisiwn o ran rheoli risg a llywodraethu corfforaethol;
- cynigion i dendro ar gyfer gwasanaethau Archwilio Mewnol neu i brynu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

**5.** Bydd y Pwyllgor yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'r gilydd ac yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Comisiwn yn ei Adroddiad Blynyddol.

**HAWLIAU**

**6.** Yn amodol ar gyllidebau y cytunir arnynt gan y Comisiwn, caiff y Pwyllgor, gyda chymeradwyaeth y Swyddog Cyfrifyddu:

- gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod o hyd at flwyddyn i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol;
- caffael cyngor ad-hoc arbenigol y telir amdano gan y sefydliad.

**MYNEDIAD**

**7.** Bydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd Archwilio Cymru ryddid i siarad yn gyfrinachol â Chadeirydd y Pwyllgor ar unrhyw adeg.

**CYFARFODYDD**

**8.** Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith bob blwyddyn. Caiff y Cadeirydd gynnull cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.

**9.** Rhaid i o leiaf ddau aelod o'r Pwyllgor fod yn bresennol i sicrhau cworwm.

**10.** Fel arfer, bydd y Swyddog Cyfrifyddu, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Adnoddau, y Rheolwr Risg a Llywodraethu, y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd o Archwilio Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

**11.** Caiff y Pwyllgor ofyn i unrhyw swyddog arall fod yn bresennol i'w gynorthwyo â'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol.

**12.** Caiff y Pwyllgor ofyn i unrhyw rai, neu i bawb, sy'n mynd i'r cyfarfodydd fel arfer ond nad ydynt yn aelodau, adael y cyfarfod er mwyn gallu cynnal trafodaeth agored a gonest ar faterion penodol.

**13.** Caiff y Comisiwn neu'r Swyddog Cyfrifyddu ofyn i'r Pwyllgor drefnu cyfarfodydd ychwanegol i drafod materion penodol y mae am gael cyngor y Pwyllgor yn eu cylch.

## GOFYNION GWYBODAETH

**14.** Bydd y Pwyllgor yn cael y wybodaeth a ganlyn ym mhob cyfarfod:

- adroddiad yn crynhoi unrhyw newidiadau sylweddol yng Nghofrestr Risgiau'r Comisiwn;
- adroddiad cynnydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol yn crynhoi'r canlynol:
  - y gwaith a gwblhawyd (o'i gymharu â'r gwaith y bwriadwyd ei wneud);
  - y materion allweddol sy'n codi o'r gwaith Archwilio Mewnol;
  - ymateb rheolwyr i argymhellion adroddiadau archwilio;
  - newidiadau i'r cynllun archwilio blynyddol;
  - materion yn ymwneud ag adnoddau sy'n effeithio ar y gallu i roi'r cynllun Archwilio Mewnol ar waith;
- adroddiad cynnydd gan gynrychiolydd Archwilio Cymru yn crynhoi'r gwaith a wnaed a'r casgliadau sy'n deillio ohono;
- adroddiadau sicrwydd y rheolwyr; ac

- adroddiadau ar reoli digwyddiadau/achosion mawr, achosion a fu bron a digwydd a'r gwersi a ddysgwyd.

**15.** Pan fo hynny'n briodol, bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael:

- cynigion ar gyfer cylch gorchwyl archwiliadau mewnol/y siarter archwilio mewnol;
- y strategaeth archwilio mewnol;
- Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- adroddiadau sicrwydd ansawdd ar y swyddogaeth archwilio mewnol;
- Strategaeth Archwilio flynyddol Archwilio Cymru;
- adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- cyfrifon drafft y Comisiwn;
- y Datganiad Llywodraethu drafft;
- Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risgiau Gwybodaeth;
- adroddiad ar unrhyw newidiadau i bolisïau cyfrifyddu;
- llythyr rheoli Archwilio Cymru;
- adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro am swyddogaethau archwilio;
- adroddiad ar gydweithredu rhwng archwilwyr mewnol ac allanol;
- Strategaeth Rheoli Risg y Comisiwn;
- adroddiadau ar dorri rheolau gwybodaeth a diweddariadau rheolaidd ar seiberddiogelwch;
- manylion am reoli'r portffolio o raglenni/prosiectau newid allweddol;
- crynodeb o'r achosion o wyro oddi wrth y gweithdrefnau arferol; a
- gwybodaeth arall o berthnasedd neu ddiddordeb posibl, gan gynnwys:
    - papurau neu adroddiadau'r Comisiwn ar faterion o bwysigrwydd strategol;

- diweddariadau ar feysydd a ystyriwyd gan Bwyllgor Taliadau'r Comisiwn;
- adroddiadau cenedlaethol fel y cânt eu cynhyrchu gan gyrff archwilio; a
- diweddariadau ddwywaith y flwyddyn gan Archwilio Cymru i rannu gwybodaeth am astudiaethau ac adroddiadau sector cyhoeddus ehangach ac i grynhoi sut y gallai'r rhain effeithio ar y Comisiwn, neu fod o ddiddordeb iddo.

- diweddariadau ar feysydd a ystyriwyd gan Bwyllgor Taliadau'r Comisiwn;
- adroddiadau cenedlaethol fel y cânt eu cynhyrchu gan gyrff archwilio; a
- diweddariadau ddwywaith y flwyddyn gan Archwilio Cymru i rannu gwybodaeth am astudiaethau ac adroddiadau sector cyhoeddus ehangach ac i grynhoi sut y gallai'r rhain effeithio ar y Comisiwn, neu fod o ddiddordeb iddo.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales